

Atodiad 8

Derbyniwyd ymatebion ffurfiol gan y canlynol:

Darpariaeth Arbenigol i Ddysgwyr Cynradd ac Uwchradd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol

- Estyn
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Albany Primary School
- Corff Llywodraethu a Pennaeth Ysgol Gynradd Baden Powell
- Pennaeth Ysgol Gynradd Fairwater
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Herbert Thompson
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Lakeside
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Springwood
- Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
- Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
- Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch
- RhAG - Rhieni Dros Addysg Gymraeg

Darpariaeth Arbenigol i Ddysgwyr Cynradd Sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a / neu Awtistiaeth

- Estyn
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Albany
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coed Glas
- Pennaeth Ysgol Gynradd Coed Glas
- Corff Llywodraethu a Pennaeth Ysgol Gynradd Greenway
- Corff Llywodraethu a Pennaeth Ysgol Gynradd Severn

Ymatebion ffurfiol i'r Darpariaeth Arbenigol i Ddysgwyr Cynradd ac Uwchradd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol

Ymateb Estyn i'r cynnig i gyflwyno darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd Y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood, Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn dim ond yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Y cynnig yw sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol mewn 7 ysgol ledled Dinas Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys chwe ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd. Mae hyn yn cynnwys cynigion am un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae dosbarth lles eisoes mewn tair ysgol [Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood ac Ysgol Gymraeg Pwll Coch]. Y cynnig ar gyfer yr ysgolion hyn yw disodli darpariaeth bresennol y dosbarth lles. Byddai'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Y Tyllgoed yn cael ei chyd-leoli gydag Ysgol Arbennig newydd The Court.

Crynodeb / Casgliad

At ei gilydd, mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf. Fodd bynnag, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r manylion o ran sefydlu a chynnal darpariaeth arbenigol o fewn ysgol brif ffrwd a'r goblygiadau i'r holl ddysgwyr, staff a'u rhieni.

Disgrifiad a manteision

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig. Yn ei hanfod, mae hyn yn ymwneud â galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol a dosbarthu'r ddarpariaeth honno'n well o fewn y ddinas. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn darparu gwybodaeth am y graddau y mae'r galw'n cynyddu. Mae'r cynnig yn cyfeirio at ddiffyg capasiti yn ysgolion arbennig y ddinas a'r pwysau o ran defnyddio lleoliadau'r tu allan i'r sir. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae defnyddio lleoliadau'r tu allan i'r sir yn uniongyrchol berthnasol i'r cynigion.

Mae'r awdurdod lleol yn datgan ei fod yn cynnal 90 o leoedd ar gyfer dysgwyr oedran cynradd a 284 o leoedd ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol, ar hyn o bryd. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â sefydlu 64 o leoedd ychwanegol mewn chwe ysgol gynradd a 20 o leoedd mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n glir pam mae'r galw ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd yn llawer mwy na dysgwyr oedran cynradd, a ph'un a yw'r cynnydd arfaethedig mewn lleoedd ar gyfer dysgwyr cynradd ac uwchradd yn ddigonol i fodloni'r galw.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi trosolwg o fanteision y cynnig. Mae'r rhain yn ymwneud â'r awdurdod yn bodloni'r galw, staff arbenigol yn gweithio'n agosach gyda chydweithwyr eraill yn yr awdurdod a'r ysgol arbennig benodol, bod darpariaeth o bosibl yn agosach at gartrefi dysgwyr, a chynyddu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ni roddir gwybodaeth benodol o ran y manteision arfaethedig i ddysgwyr, na beth mae'n debygol fydd darpariaeth y cwricwlwm neu ddarpariaeth ehangach, gan gynnwys cymorth.

Nid yw'r awdurdod lleol yn rhoi trosolwg o unrhyw opsiynau amgen a allai fod wedi cael eu hystyried.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu llinell amser gyffredinol ar gyfer y cynnig, gyda dyddiad gweithredu disgwylidig, sef mis Medi 2024.

Mae'r cynnig yn datgan y gallai'r canolfannau adnoddau arbenigol leihau'r pellter sy'n cael ei deithio gan ddysgwyr. O ran dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol, mae'r cynnig [tud.6] yn nodi "...er bod cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael ar gyfer plant o'r fath... ac aiff ymlaen i ddatgan [tud.9]...bod y Cyngor yn cymhwyso'r pellter cerdded cymhwyso statudol o ddwy filltir i ysgolion cynradd a 3 milltir ar gyfer ysgolion uwchradd, gan gynnwys ysgolion arbennig a chyfleusterau canolfannau arbenigol. Gallai cludiant am ddim gael ei ddarparu ar gyfer rhai dysgwyr sy'n byw o fewn y pellterau hyn..." Gallai'r ddau ddatganiad hyn achosi dryswch. Yn ychwanegol, nid yw'n glir o'r cynnig p'un a fydd unrhyw ddysgwyr sy'n derbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol dan anfantais trwy beidio â gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyn / ar ôl yr ysgol, yn enwedig os nad yw amseriad y cludiant a ddarperir yn hyblyg.

Nid yw'r cynnig yn nodi p'un a fydd disgyblion yn cael eu dadleoli o ddarpariaethau prif ffrwd neu arbenigol presennol, a'r cymorth, gan gynnwys trefniadau pontio, y mae'n debygol y bydd ei angen ar ddisgyblion a'u rhieni, ac elwa ohono.

Nid yw'r awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth am gostau o ran sefydlu neu ddisodli darpariaeth bresennol ac nid yw'n ystyried ychwaith p'un a oes angen unrhyw waith adeiladu, adnewyddu neu addasu ar ddarpariaeth arfaethedig neu ddarpariaeth bresennol. Nid yw'n glir fod adeilad o fewn yr ysgolion arfaethedig wedi'i nodi.

Nid yw'r cynnig yn darparu unrhyw wybodaeth o ran trefniadau staffio arfaethedig na sut bydd staff yn cael eu cefnogi.

Nid yw'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig hwn. Nodir y bydd darpariaeth adnoddau arbenigol wedi'i lleoli mewn dwy ysgol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd y ddarpariaeth trwy

gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cynnig hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn datgan ei bod yn "...ddyddiau cynnar..." [tud.2] o ran y cynnig. Mae gan y Cyngor gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb ac ar-lein a fydd yn cael eu cynnal rhwng 29 Tachwedd 2023 ac 16 Ionawr 2024.

Agweddau addysgol ar y cynnig

At ei gilydd, nid yw'r awdurdod lleol wedi ystyried mewn unrhyw fanylder, heblaw am y materion hynny sydd o bosibl yn gysylltiedig â lleoliad a chludiant, effaith debygol y cynigion ar ddysgwyr, eu rhieni neu'r ysgolion arfaethedig.

Mae'r cynnig yn darparu trosolwg ar lefel uchel o'r deilliannau arolygu diweddaraf ar gyfer y saith ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n darparu digon o wybodaeth am y sylwadau o ran anghenion dysgu ychwanegol [ADY].

At ei gilydd, mae canfyddiadau arolygiadau o ran cynnydd disgyblion a'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn gadarnhaol bron ym mhob un o'r ysgolion a ystyrir yn y cynnig. Er enghraifft:

Ysgol Gynradd Baden Powell 2017

- Mae'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da mewn cyflawni eu targedau.
- Mae disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi'n gynnar.
- Mae gweithdrefnau a rhaglenni ymyrraeth perthnasol ar waith i sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Ysgol Gynradd Y Tyllgoed 2020

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref yn yr ysgol.
- Mae'r ganolfan [les] yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad penodol a buddiol ar gyfer ei disgyblion.
- Trwy ystod o asesiadau a gwaith pontio addysgiadol, mae staff yn dod i wybod yn gyflym iawn beth yw anghenion unigol disgyblion.
- Caiff yr holl rieni ohebiaeth ddyddiol werthfawr am gynnydd eu plentyn a'r meysydd perthnasol ar gyfer gwella. Mae'r ymagwedd drefnus a gofalus hon yn galluogi staff i fonitro unigolion yn agos iawn.

Ysgol Gynradd Herbert Thompson 2022

- Mae'r ysgol yn darparu cymorth teilwredig, sy'n galluogi llawer o ddisgyblion, ond yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, i wneud cynnydd da o'u manau cychwyn.

- Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf mewn llawer o feysydd dysgu, yn enwedig o ran datblygu eu medrau llythrennedd a'u medrau cymdeithasol ac emosiynol.
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o weithdrefnau asesu i olrhain cynnydd disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol.
- Mae systemau cadarn ar waith i nodi, monitro, ac adolygu cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cynhelir cyfarfodydd cynnydd disgyblion rheolaidd ac effeithiol iawn sy'n cynnwys arweinwyr, athrawon dosbarth a'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn cynnig goruchwyliaeth effeithiol ac yn cydlynu gwaith pob un o'r staff yn dynn.
- Mae eglurder a manylder cofnodion disgyblion yn rhagorol ac yn sicrhau bod pob un o'r staff sy'n ymwneud â chynorthwyo disgybl yn deall eu rôl ac yn cyfrannu'n ystyrlon tuag at ei ddatblygiad.

Ysgol Gynradd Lakeside 2014

- Nid oes unrhyw sylwadau o ran disgyblion ag AAA / ADY

Ysgol Gynradd Springwood 2018

- Gwahoddwyd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar effaith ei chanolfan adnoddau ar gyfer disgyblion ag ADY.
- Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r ffordd y mae'r holl ddisgyblion yn dangos lefel uchel o garedigrwydd ac ystyriaeth at ei gilydd, er enghraifft trwy'r cymorth a roddant i ddisgyblion eraill ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae darpariaeth helaeth yr ysgol o raglenni ymyrraeth yn llwyddiannus iawn o ran diwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion.
- Ceir partneriaeth ragorol rhwng arweinydd dosbarthiadau'r ganolfan adnoddau a chydlynnydd yr ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.
- Ceir trefniadau hynod lyfn rhwng y ganolfan adnoddau a dosbarthiadau prif ffrwd.
- Mae bron pob un o'r disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn cynorthwyo disgyblion o'r dosbarth adnoddau yn dda iawn ac maent yn sensitif i'w hanghenion. Er enghraifft, pan fydd disgyblion hŷn o'r ganolfan adnoddau yn chwarae pêl-droed yn ystod amseroedd chwarae, mae disgyblion prif ffrwd yn chwarae i'w hannog i sgorio, ac yn dathlu gyda nhw pan fyddant yn sgorio.
- Mae disgyblion o'r dosbarth adnoddau yn elwa ar yr ystod eang o gyfleoedd i gymryd rhan mewn dosbarthiadau a chlybiau prif ffrwd. O ganlyniad i'r ffaith fod mwyafrif y disgyblion yn integreiddio'n dda iawn, ac ansawdd uchel y ddarpariaeth o fewn y dosbarth adnoddau ei hun, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd rhagorol tuag at eu targedau unigol.
- Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn hynod effeithiol o ran sicrhau bod disgyblion, rhieni, staff a rhanddeiliaid eraill yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cynlluniau ac ymyriadau penodol a thargedig.

Ysgol Gymraeg Pwll Coch 2018

- Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol.
- Mae gweithdrefnau'n drylwyr ac yn galluogi staff i nodi anghenion disgyblion yn gynnar, ac yn darparu cymorth pwrpasol.
- Mae cynlluniau addysg unigol yn fanwl, yn cynnwys targedau clir ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol gan athrawon a chynorthwywyr, sy'n sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.
- Mae rhieni'n cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses i greu a gwerthuso cynlluniau.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr 2023

- Mewn mwyafrif o wersi, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol.
- Mae'r tîm ADY yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion disgyblion ag ADY ac yn rhoi cymorth penodol a buddiol iddynt. Maent yn defnyddio nifer o ffynonellau i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion unigol yn rheolaidd, ac yn addasu yn unol ag anghenion y disgybl.
- Mae arweinwyr ar draws yr ysgol yn darparu lefelau uchel o gymorth ar gyfer staff a cheir arweinyddiaeth effeithiol o ran darpariaeth ar gyfer lles ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Mae cynlluniau addysg unigol yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion ac yn cynnwys targedau penodol. Ceir rhaglen hyfforddi ddefnyddiol sy'n cynnwys strategaethau amrywiol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr i gynorthwyo disgyblion penodol yn yr ystafell ddosbarth.
- Yn yr 'Hyb Cymorth ADY', mae disgyblion o bob oed yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddatblygu eu medrau bywyd yn llwyddiannus mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Mae disgyblion sy'n mynychu'r 'Dosbarth Lles' yn derbyn cymorth pwrpasol ac yn teimlo'n ddiogel. Yma, caiff disgyblion fanteisio ar ddarpariaeth amrywiol ac addas i'w cynorthwyo i ddelio â'u hemosiynau ac ymdopi â bywyd bob dydd.

Albany Primary School Governing Body

Do you support the plans put forward to improve the provision for Children and Young People with additional learning needs?

Yes.

Do you support the proposal for each of the school sites?

Yes.

Would you like to suggest any changes or alternatives?

The lack of EWB provision for primary aged pupils with emotional health and wellbeing needs in Cardiff continues to have a range of significant impacts on our school, including impacting how we use space in the school, impacting staff welfare and retention and impacting the wellbeing of pupils. An example would be a pupil waiting over two years for a placement which had an extremely significant impact on the child's wellbeing and wider family. We welcome the increase in provision – it is much needed and will help to ease pressures on schools such as ours. However we do not feel the provision will be sufficient for the numbers of children who need support across the city.

We also believe there will be risk of further increase in demand due to school budget pressures and the freeze on ALN funding and not being able to apply for additional funding leaving schools with lower levels of staffing to manage complex needs. We support proposals to improve facilities for prevention and early intervention in primary and secondary schools, including flexible spaces to allow for smaller classes and for setting up in-house nurture arrangements and internal exclusion.

Additional comments.

We believe it is fundamentally important that provision is fit for purpose for all pupils that need it. We have experienced a very concerning situation where a female pupil was not provided with a suitable placement for over two years, a key factor being that all of the provision explored by the council was focused on meeting the needs of boys. There needs to be planned provision for girls as part of this consultation – we would like to better understand how this will be addressed. For example, will some of the new Specialist Resource Bases be focused on meeting the needs of girls? How will you ensure that the new units accept a balanced proportion of girls as well as boys? With mental health challenges becoming more complex there are a significant number of girls with complex needs across the city and there needs to be sufficient provision not just in number of places but also for peers of the same gender. Many provisions explored by families are very boy dominated which can be intimidating for girls or parents when exploring provisions.

Cathy Madge

Chair of Albany Primary School Governing Body

Baden Powell Primary School - Governing Body

Do you support the plans put forward to improve the provision for Children and Young People with additional learning needs?

Yes.

Do you support the proposal for each of the school sites?

Baden Powell Primary School

- *establish an 8 place specialist resource base for emotional health and wellbeing at Baden Powell Primary School from September 2024, within the existing buildings.*

Yes.

Would you like to suggest any changes or alternatives?

No.

Additional comments.

Baden Powell Primary has been well supported by the Local Authority in recent years to develop provision for pupils with additional learning needs. Since setting up the informal class, there has been a positive impact on pupils across the school, both in the wellbeing class and in the mainstream classes. Ongoing LA advice and guidance has upskilled staff to support pupils effectively. School staff are well trained in recognising what pupils need and delivering beneficial interventions to enable children to make good progress socially and academically. The Headteacher of Baden Powell Primary School has consulted with representatives of our school community including Staff, Governors, Parents and Pupils, and fully support the proposal to establish a formal 8 place specialist resource base for emotional health and wellbeing from September 2024, within our existing buildings.

Baden Powell Primary School - Headteacher

Do you support the plans put forward to improve the provision for Children and Young People with additional learning needs?

Yes.

Do you support the proposal for each of the school sites?

Yes – support the following:

Baden Powell Primary School

- *establish an 8 place specialist resource base for emotional health and wellbeing at Baden Powell Primary School from September 2024, within the existing buildings.*

Fairwater Primary School

- *establish an 8 place specialist resource base for emotional health and wellbeing at Fairwater Primary School from September 2024, within the existing buildings. This would replace the existing wellbeing class.*

Lakeside Primary School

- *establish a 16 place specialist resource base for emotional health and wellbeing at Lakeside Primary School from September 2024, within the existing buildings. This would replace the existing wellbeing class.*

Springwood Primary School

- *establish an 8 place specialist resource base for emotional health and wellbeing at Springwood Primary School from September 2024, within the existing buildings. This would replace the existing wellbeing class.*

Ysgol Gymraeg Pwll Coch

- *establish an 8 place specialist resource base for emotional health and wellbeing at Ysgol Gymraeg Pwll Coch from September 2024 within the existing buildings. This would replace the existing wellbeing class.*

No opinion on the following:

Herbert Thompson Primary School

- *establish a 16 place specialist resource base for emotional health and wellbeing at Herbert Thompson Primary School from September 2024, within the existing buildings.*

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

- *establish a 20-place Specialist Resource Base for learners with Emotional Health and Wellbeing Needs at Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr from September 2024, within the existing school buildings.*

If you do or do not support the proposed changes than please explain why.

Baden Powell - We developed an 'in-house' well being class in response to pupil need in 2021. This has been successful in meeting the needs of our pupils, and has impacted positively on pupils both in the wellbeing class and in the mainstream classes.

Fairwater Primary School, Lakeside Primary School, Springwood Primary School, Ysgol Gymraeg Pwll Coch – This would replace the existing wellbeing class.

Would you like to suggest any changes or alternatives?

No, I agree with the proposed changes.

Additional comments.

Baden Powell Primary has been well supported by the Local Authority in recent years to develop provision for pupils with additional learning needs. Since setting up the informal class, there has been a positive impact on pupils across the school, both in the wellbeing class and in the mainstream classes. Ongoing LA advice and guidance has upskilled staff to support pupils effectively. School staff are well trained in recognising what pupils need and delivering beneficial interventions to enable children to make good progress socially and academically. As Headteacher of Baden Powell Primary School, I have consulted with representatives of our school community including Staff, Governors, Parents and Pupils, and fully support the proposal to establish a formal 8 place specialist resource base for emotional health and wellbeing from September 2024, within our existing buildings.

Fairwater Primary School Headteacher

In terms of the SRB it is very much welcomed by myself, I think this provision will afford more responsive needs of individual pupils being met. For example, I fully support that the pupils access the SRB for as long as they need to rather than following a time scale that was previously in place.

Fairwater Primary has a great deal of potential in terms of provision, and I do not feel that this is being fully maximised. I would welcome the Local Authority to invest more in our site/provision. Our current provision/ site does not have an outdoor secure space for the children to access. This would ensure further outdoor development opportunities it would safeguard our pupils. We also have an unused toilet block that I would welcome being turned into a sensory room for supporting the needs of the pupils - this would mean investment, again, from the Local Authority.

We have recently adjusted the setting so that we have two rooms available for the children to use. I ask as the Headteacher that we are afforded the opportunity by the Local Authority to recruit an additional staff member so that we can increase our pupil capacity. I would recommend funding for a HLTA so that greater impact can be achieved.

In response to the consultation, I do fully support the SRB development, however, I do recommend that further development is enabled at the SRB provision/site at Fairwater Primary School.

Thanks

Miss Ceri Evans
Pennaeth/ Headteacher
Ysgol Gynradd Y Tyllgoed/ Fairwater Primary School

Herbert Thompson Primary School Governing Body

Do you support the plans put forward to improve the provision for Children and Young People with additional learning needs?

Yes.

Do you support the proposal for each of the school sites?

Herbert Thompson Primary School

- *establish a 16 place specialist resource base for emotional health and wellbeing at Herbert Thompson Primary School from September 2024, within the existing buildings.*

Yes.

If you do or do not support the proposed changes than please explain why

Response on behalf of the Full Governing Body of Herbert Thompson Primary School

We welcome the proposals to establish a specialist resource base at Herbert Thompson Primary School to service the needs of the Ely and Caerau children. We believe that this is a provision that is very much needed within this community.

We support the establishment of the specialist resource base within the existing school buildings but reiterate the findings of the initial survey of the site that the only suitable existing building would be the former boxing club building, but that this building will require extensive refurbishment to be a suitable space for the resource base.

Would you like to suggest any changes or alternatives?

-

Additional comments

It is our hope that the specialist resource base will be fully resourced and sustainable to support the community for many years to come. We welcome the proposal that the resource base will have a phased recruitment of pupils to allow time for procedures within the base to be embedded.

We look forward to the ongoing support of the Local Authority to fully embed the specialist resource base within Herbert Thompson Primary School.

Steven Harris (on behalf of the Governing Body of Herbert Thompson).

Lakeside Primary School Governing Body

Do you support the plans put forward to improve the provision for Children and Young People with additional learning needs?

Yes.

Do you support the proposal for each of the school sites?

Yes – support the proposals; support proposals relating to Lakeside Primary School with amendments.

If you do or do not support the proposed changes than please explain why.

Lakeside Governing Body supports the proposed changes in principle.

To clarify, pupils need to remain dual-registered throughout their time in the provision.

As part of the consultation process, the Governing Body attended a local authority consultation briefing and an on-site, face-to-face visit to the class followed by a presentation from the Wellbeing staff.

The governing body, leadership team and staff as a whole are fully committed to continuing the high-quality provision that currently characterises the wellbeing provision at the school. We are committed to ensuring that this continues assuming the transition to a formalised SRB provision takes place.

Current position

Excellent practice has been identified at the Lakeside Wellbeing Class Provision within the current staff to student structure (**ratio of 7 staff members to 12 pupils***). There have been a number of success stories since the class's creation, with some children returning to their mainstream settings and others effectively prepared for more specialised placements following a period of time with us.

- 2 X teachers with ALN allowance
- 1 X HLTA with ALN Allowance
- 4 X grade 4 TAs with ALN allowance

We consider that the classes at Lakeside represent an 'invest to save' where the intensive therapeutic provision has clearly demonstrated value for money and has enabled the children to engage much more effectively with learning given their complex starting points. We are sure that the council recognises that the provision of an SRB is founded on the belief that it is much more effective to intervene to meet the needs of these most vulnerable learners before their challenges increase significantly. If this is not done, the risk that more substantial and costly intervention will be needed in the future as these young people grow older is heightened.



Concerns around number of pupils rising to 16

To date, although the class has always (on paper) been allocated 16 pupils, we have never had that many. The highest number being 12 attending at one time (we have 14 on our books currently but only 12 attend).

The Wellbeing Class is specifically for children with emotional health and wellbeing needs. The school and the governing body have concerns about increasing the number of children attending the class, at the current high level of emotional, health and wellbeing needs that we are experiencing with our children and families, particularly since the Covid pandemic.

The following list summarises the challenges and risks of increasing the number of pupils. Please see the attached document, which provides further details.

If the Lakeside Wellbeing Class provision were to increase from 12 to 16 pupils, we risk the following issues arising:

Meeting the needs of EHWP pupils and fulfilling their IDPs (ALP) effectively

- There is considerable stability in the staffing of the provision which has contributed to excellent teamwork and a strong commitment to each and every child. We believe that this has been a critical factor in its success. It has led to the building of excellent relationships with the families of the children concerned. This has proved so important in underpinning the quality of relationships between staff and children which is such a strong characteristic of the provision as it currently stands.
- The current staffing complement (7) for 12 children is critical to allowing a high - quality provision to continue. All of the children in the provision require one to one

support during much of the day. This is because they need an adult to co-regulate with them and to keep themselves and others safe.

- Pupils need support to continue making progress in areas that are foundations for effective learning e.g., self-regulation, relationships and feeling safe in school. Pupils require a predictable educational environment that is underpinned by the principles of attachment and nurture.
- Key adults need to be emotionally and physically available, attentive and attuned to pupil's needs. Pupils require access to wider therapeutic support to enable them to process some of their experiences in a safe therapeutic space.
- Toileting needs - Intimate health and/or continence needs of children (for example, toileting support requires 2 staff members per child). The setting has one changing room equipped with a shower.

Space

- Physical space - Children in the setting find relationships with other children challenging and need space. Sometimes they are able to work/ play in twos, but rarely higher numbers. Staff model positive relationships between children. This often includes supporting distressed / dysregulated behaviour or interactions between children and helping them to return to their window of tolerance.
- Learning and therapeutic areas - The two classes are set up to allow rooms to be both therapeutic and learning environments with break out spaces and room for 1:1 sessions.
- Calming areas – we have two, beautiful, soft play rooms which are used for de-escalation / calming areas which are in constant use. Staff use these rooms to co-regulate with the children, usually on a 1:1 basis. These are also used to deliver 'relationship-based-play' activities and trauma informed therapeutic activities.
- Outdoor space – this is limited as a free flow activity on the decked area. There is one small climbing frame that around 2-3 children can use at once. Children are able to access the wider areas of outdoor space across the school, but this requires a high adult-pupil ration to be successful and keep everyone safe.

Logistics

- Transport - We do not have a dedicated taxi drop off area. A potentially unmanageable increase in practical logistics such as transport, transition within the school building (currently all 7 staff are placed in various positions according to our traffic management plan, to enable children to transition safely between classroom and taxis, e.g. gate duty, transitioning children from taxis into the building, etc)
- Multi-agency working eg visitor, meetings, conferences – to fully support children and families, there are a large number of meetings which are arranged by external parties and that take place within school hours. These always require attendance by one and sometimes two members of staff
- Paperwork, such as IDPs – all pupils in the setting have a large amount of detailed and individual information and legal paperwork, such as IDPs, PCP

meetings, Court documents and health care plans. These are high quality and need to be maintained on around a half termly basis, alongside yearly provision reviews and often, applications for future specialist provision.

Wider school involvement

The Wellbeing Class, families, children and staff, all form part of Lakeside Primary School and are part of everything we do. As a result, the class, with high numbers of multi-agency working, including safeguarding, health and safety, ALN needs and logistical daily planning, requires support and time from the senior leaders of the school, including the Headteacher and ALNCo. This would increase if the provision were to grow in number.

Funding

It was suggested at the consultation meeting that reduction in children could affect the level of funding that the class receives. Reducing the funding will obviously affect the staff>child ratio, the safety of the children, the traffic management plan, resources for the children, Health & Safety, and staff wellbeing. The current staffing complement for 12 children is critical to allowing this high -quality provision to continue.

We have identified significant risks with reducing the pupil to staff ratio and that these put at risk Cardiff's 2030 Learning Entitlement's Vision: specifically, it risks children's ability to "thrive and fulfil their potential" and "realise their dreams and ambitions"

We are keen to work together with the LA and other Wellbeing Classes / SRBs to make Cardiff a beacon of excellent practice for our emotional health and wellbeing children. We seek discussions around the points we have raised in order to get this right for our pupils across the city.

Would you like to suggest any changes or alternatives?

Changes to the proposed number of 16 down to 12 (with the current level of need), yet retaining the current funding levels.

If the Lakeside Wellbeing provision is to continue its excellent work and its current level of successful outcomes, the funding level must remain as it is currently. Such is the nature of the class that staff have to be ready at all times to deal with the unexpected (dysregulation, incontinence, safeguarding disclosure or discovery) alongside planning in the high level of correspondence, paperwork, meetings, logistics, and visitors/visits. At a higher pupil>staff ratio, we have concerns that there will be negative impacts on learning, pupil and staff wellbeing, Health & Safety, and positive outcomes.

Springwood Primary School Governing Body

May I, on behalf of governors at Springwood Primary School, confirm that we accept the proposals as outlined and discussed as part of the presentation. We understand all resources to run the Unit, will be provided from central budgets.

We have had a Wellbeing Class in our school for a number of years, and so the proposal does not mean a major change for us.

It is good to see lots of effort being put in to help and support those young children who need addition provision and congratulations for making this happen, despite pressure on budgets.

If you require anything further from me, then please don't hesitate to ask.

Derek King
(Chair of Governors).

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr Governing Body

The governing body of Ysgol Plasmawr appreciates the detailed presentation of information provided by the county regarding the establishment of an SRB at the school. We have always focused on ensuring we can provide for all students, whatever their needs, in a fully inclusive Welsh-medium environment at the school. We understand that this SRB will enable us to reduce the instances of pupils needing to move out of the Welsh-medium sector to access appropriate provision and welcome this.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr Headteacher

Welsh medium schools provide for a fully comprehensive intake of pupils from all areas of Cardiff. With a diverse intake of pupils there will always be pupils who need additional support with their needs, including EHW needs, and the lack of provision for pupils that need more than is available in a mainstream setting has meant that these pupils currently need to leave the Welsh medium sector. We welcome this opportunity to provide for pupils with EHW pupils within the sector by establishing an SRB on the site of Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr. This will allow us to respond to the needs of these pupils and ensure they have the opportunity to succeed in a Welsh medium environment. The layout of the school site will allow us to locate the provision for this small group of pupils in a manner that will not impact the provision to other pupils. The decision to locate the SRB at Ysgol Plasmawr builds on our longstanding work with EHW pupils and reflects the strengths in pastoral support noted in our recent Estyn inspection.

Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch

Pennaeth / Headteacher: Mr D Rees
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher: Mrs S Sampson
Cadeirydd y Llywodraethwyr/Chair of Governors: Mrs N Gruffudd-Evans

Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Rhodfa Lawrenny, Lecwydd, Caerdydd. CF11 8BR
Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Lawrenny Avenue, Leckwith, Cardiff. CF11 8BR



Teulu mawr ŷm ni i gyd

Ysgol Gymraeg Pwll Coch – Ymateb i'r Ymgynghoriad

Yn 2022, cytunodd y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth i agor CAA Lles cyfrwng Cymraeg dros dro yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Rydym bob amser yn ymfalchïo yn ein hethos cynhwysol fel ysgol, ac roeddem ar y pryd, wrth gytuno i agor dosbarth lles dros dro, yn awyddus i adeiladu ar hyn. Rydym hefyd o'r farn bod cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r fath yn y sir yn bwysig, ac roeddem yn hapus i gefnogi'r AALI gyda'r cynllun.

Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion sylweddol y pennaeth a'r staff yn y CAA yn ystod y cyfnod dros dro hwn, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r ddarpariaeth lles a dreialwyd yn gweithio ac mae bellach yn achos pryder difrifol. Mae pryderon y Corff Llywodraethu wedi eu cyflwyno i swyddogion yr AALI mewn dogfen ar wahân.

Ar ôl ystyried yn ofalus iawn, mae'n dristwch mawr bod yn rhaid i Gorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch ei gwneud yn glir na all gefnogi'r ffurfioli, na hyd yn oed barhad y CAA Lles yn yr ysgol. Nid ydym o dan unrhyw amheuaeth bod yr ysgol a'i staff wedi gwneud pob ymdrech posibl i sicrhau llwyddiant y ganolfan dros y flwyddyn ddiwethaf. Am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen, mae'n anffodus na all ddod yn opsiwn parhaol.

Rydym yn ddiolchgar am y trafodaethau helaeth rhwng yr ysgol a'r AALI, yn enwedig swyddogion ADY a CTY, yn ystod y pythefnos diwethaf. Nodwn fod y cyngor yn derbyn penderfyniad y Corff Llywodraethu na all cynlluniau i sefydlu dosbarth lles yn yr ysgol barhau.

Edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth agos er lles yr holl ddisgyblion yn y dyfodol.

Yn ddiffuant,

Nona Gruffudd-Evans

Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Ar ran Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch



**Ymateb Rhieni Dros Addysg Gymraeg i ymgynghoriad
Cyngor Dinas Caerdydd
ar y
DARPARIAETH ARBENIGOL I DDYSGWYR CYNRADD AC
UWCHRADD AG ANGHENION IECHYD A LLES EMOSIYNOL**

18 Ionawr 2024

1. Dymuna RhAG ddiolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Dinas Caerdydd ar y **DDARPARIAETH ARBENIGOL I DDYSGWYR CYNRADD AC UWCHRADD AG ANGHENION IECHYD A LLES EMOSIYNOL**
2. Y mae cyfundrefn gynllunio addysg Gymraeg trwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg yn gorfod bod yn rhan graidd o gynllunio darpariaeth addysg ehangach pob Awdurdod Lleol. Ers Medi 2022, mae Cyngor Sir Caerdydd wedi bod yn gweithredu cynllun newydd a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr fedru caffael y Gymraeg fel eu bod yn medru ei defnyddio'n rhwydd yw sail uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr ac y mae dogfen gynllunio addysg Gymraeg y Llywodraeth ei hun yn nodi

“Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd.”

(Tudalen 3:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>)

3. Y mae Deilliant 6 y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn rhoi cyfrifoldeb ar yr Awdurdodau Lleol i fod yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg i'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r deilliant yn nodi fel a ganlyn:

Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>

4. Byddwn yn disgwyl felly fod y ddarpariaeth a gynigir yn rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei osod o dan gyfrifoldeb Deilliant 6 CSCA'r Sir.
5. Da yw felly gweld bod Addysg Gymraeg yn cael sylw yn yr ymgynghoriad hwn a bod yna ddarpariaeth newydd yn cael ei gynigir ar gyfer Ysgol Pwll Coch ac Ysgol Gyfun Plasmawr. Y mae hyn yn welliant arwyddocaol ar sefyllfa'r dlawd iawn y gorffennol gan nad oes darpariaeth o'r fath wedi bodoli ar gyfer dysgwyr mewn addysg Gymraeg cyn i'r dosbarthiadau dros dro agor.
6. Adlewyrcha'r diffyg hwn yn y ddarpariaeth, sefyllfa rhy gyffredin. Mewn papur ar y cyd rhwng Comisiynydd y Gymraeg a'r Comisiynydd Plant yn 2023 o'r enw **Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol** nodwyd yn gryno ar gyhwyn y ddogfen, bwyntiau allweddol yr adroddiad, sef
 - Dylai darpariaeth ADY yng Nghymru adlewyrchu anghenion gwlad ddwyieithog, a dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mae gan blant yr hawl i dderbyn addysg yn eu hiaith eu hunain.
 - Mae'r dystiolaeth yn dangos bod ffordd bell i fynd er mwyn sicrhau cyfundrefn ADY cyfrwng Cymraeg. Mae heriau sylweddol, ac rydym yn derbyn nad hawdd fydd eu goresgyn ac ni fydd modd gwneud hynny dros nos.
 - Mae'n hanfodol bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael ei gweithredu'n llawn er mwyn sbarduno cynllunio a gweithredu pwrpasol i sicrhau darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg sy'n gyfartal â'r ddarpariaeth Saesneg.
 - I wneud hyn yn effeithiol, rhaid i awdurdodau lleol adolygu yn llawn y ddarpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg ac i ba raddau y mae'r anghenion hyn yn cael eu diwallu. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw hyn wedi digwydd ym mhob achos, ac mae hefyd felly yn codi cwestiynau ynghylch prosesau cynllunio ar gyfer gwella'r ddarpariaeth hon.
7. Yn yr ystyriaethau a nodwyd ar gyfer Deilliant 6 yn y canllaw ar gyfer llunio'r CSCA, awgrymwyd y ddau gwestiwn canlynol:

Sut y byddwch yn asesu maint a gallu'r gweithlu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg a defnyddio'r canlyniadau i gynllunio'r gweithlu yn y sector hwn?

a

A ydych chi'n ymgysylltu â rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>

8. Byddwn felly wedi disgwyl gweld cyfeiriad at gynnwys y CSCA sydd yn ymateb i'r ddwy ystyriaeth uchod ar gyfer Deilliant 6 o fewn yr ymgynghoriad hwn. Ond nid oedd dim manylion am faint a gallu'r gweithlu ADY na'r elfen o gysylltu gyda rhieni/gofalwyr. Byddai gallu dangos ymrwymiad i gynyddu gallu'r gweithlu ar lefel ysgol ac Awdurdod wedi bod yn addas yma.

9. Ar dudalen 19 nodwch

Mae'r ystod o gynigion yn canolbwyntio ar gefnogi disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd, lle bo hynny'n briodol, ac ar dwf cynaliadwy darpariaeth arbenigol sefydledig a llwyddiannus. Byddai hyn yn lleihau dibyniaeth y Cyngor ar lefydd y tu allan i'r sir a rhai annibynnol yn y blynyddoedd i ddod.

Er bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg eisoes yn bodoli, a yw'n deg nodi bod y ddarpariaeth yn sefydledig a llwyddiannus eto ar ôl ond ychydig fisoedd o ddarpariaeth?

10. Dwedwch hefyd ar yr un dudalen

Byddai'r cynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth, i gyd-fynd yn agosach â'r angen a amcanestynnir am leoedd, yn galluogi nifer fwy o ddysgwyr i gael eu lleoli mewn darpariaeth sydd o fewn neu'n agosach at eu cymuned leol ac yn lleihau amseroedd teithio.

Mae hyn yn cyffredinoli braidd gan nad yw hyn o reidrwydd yn wir ar gyfer dysgwyr addysg Gymraeg gan efallai y byddai rhai'n gorfod teithio ar draws y ddinas o'r dwyrain er mwyn cyrraedd Ysgolion Pwll Coch a Phlasmawr.

11. Dymunwn nodi ein pryder yn ddifrifol bod yr ymgynghoriad yn nodi'n barhaus bod angen i "ysgolion ddeall eu cyfrifoldebau a'r corff llywodraethol" o ran cynnal y ddarpariaeth, ond nid oes unrhyw wybodaeth am ba mor barod y mae'r ysgolion yn ymarferol na sut y mae'r ysgolion yn mynd i gaffael yr arbenigedd i fedru darparu'r gynhafiaeth arbenigol i'r dysgwyr hyn gan yr Awdurdod Lleol. Dymunwn atebion i'r canlynol:

- Beth yw swyddogaeth yr Awdurdod Lleol yn hyn o beth gan mai nhw sydd yn gyfrifol am y maes statudol hwn?
- Pa hyfforddiant proffesiynol sydd angen ar y staff presennol er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth arbenigol hwn?

- A oes ymarferiad mapio i ddangos ystod yr hyfforddiant sydd ar gael yn y Gymraeg a nifer y staff yn yr ysgol sydd wedi ei dderbyn yn barod neu am gael yr hyfforddiant. Ni fyddai'n deg nac yn gyfreithlon ddisgwyl i ysgol gychwyn darparu gwasanaeth arbenigol fel hyn heb yr arbenigedd.
12. Yn achos Ysgol Pwll Coch, nodwn ein pryder hefyd nad oes digon o wybodaeth yn yr ymgynghoriad am oblygiadau rhoi 8 o blant o fewn yr ystod oedran 5-11 ag anghenion lles ac emosiynol dwys o fewn yr un dosbarth.
- Beth yw'r lefel staffio priodol ar gyfer hyn?
 - Sawl athro fydd yn y dosbarth gyda'r dysgwyr hyn fel bod yr addysg yn addas ar gyfer oed ac anghenion y dysgwyr? Nid oes unrhyw wybodaeth am hyn yn y ddogfen ac y mae'n wybodaeth y dylai fod ar gael i rieni a gofalmwr dysgwyr yr ysgol fedru ei ystyried cyn cychwyn.
 - Sawl cynorthwydd arbenigol fydd yn y dosbarth?
13. Yn achos Ysgol Plasmawr a fydd yr 20 lle ar gyfer oed 11-19? Os felly mae'r cwestiynau uchod a mwy yn codi eto ar gyfer yr ysgol hon?
- Beth yw'r lefel staffio priodol ar gyfer hyn?
 - Sawl athro fydd yn y dosbarth gyda'r dysgwyr hyn fel bod yr addysg yn addas ar gyfer oed ac anghenion y dysgwyr? Nid oes unrhyw wybodaeth am hyn yn y ddogfen ac y mae'n wybodaeth y dylai fod ar gael i rieni a gofalmwr dysgwyr yr ysgol fedru ei ystyried cyn cychwyn.
 - Sawl cynorthwydd arbenigol fydd yn y dosbarth?
 - Sut fydd y ddarpariaeth yn edrych o flwyddyn 10 pan fydd y pynciau arholiadau yn cael eu dewis gan y dysgwyr? Sut fydd y gefnogaeth yn digwydd bryd hynny?
14. Mae camsyniad yn y blwch olaf ar dudalen 69 sydd nodi bod ysgol Gyfun Plasmawr yn dod o dan gategori Ysgol gynradd gymunedol Gymraeg.
15. Nodwch am gostau staffio heb unrhyw symiau yn yr ymgynghoriad hwn ond beth am y costau hyfforddiant parhaus arbenigol ac i'r sector Gymraeg? A oes ystyriaeth wedi ei roi i'r angen am hyfforddi staff mewn ysgolion Cymraeg lle y mae yna angen ystyried cefndir ieithyddol y dysgwyr wrth eu cefnogi yn y darpariaethau hyn a'r ffaith fod y maes yn un sydd â phrinder adnoddau arbenigol yn y Gymraeg?
16. Tra nodwch ar dudalen 82

Mae'r Cyngor yn monitro'r galw am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a phatrymau dewis mewn darpariaeth addysg Gymraeg ar oed cynradd ac uwchradd, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.

rhaid cofio bod gofyniad y CSCA erbyn hyn yn gofyn i Awdurdodau Lleol sbarduno'r galw am addysg Gymraeg. Wrth fod niferoedd mewn addysg Gymraeg yn cynyddu yna daw mwy o ddysgwyr i'n hysgolion gydag ystod ehangach o anghenion. Rhaid bod yn barod o'r cychwyn i'w cefnogi ac nid ymateb i bob cais. Er mwyn sbarduno'r galw rhaid i'r cynnig am addysg Gymraeg ddod yn ddewis gwirioneddol i rieni drwy fedru gweld yn glir beth yw'r cynnig ar gyfer eu plentyn hwy - beth bynnag fo'r angen. Mae manylu ar ystod gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr ar wefannau, ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ysgol a'r Awdurdod Lleol gan hefyd fanylu ar natur ac ehangder yr hyfforddiant arbenigol a'r gefnogaeth a dderbynia staff yr ysgolion gan yr Awdurdod Lleol, yn hanfodol.

17. **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg**

Nid cynnig hawdd mo'r ymgynghoriad hwn i fesur yr effaith ar y Gymraeg o ran safonau'r Gymraeg gan ei fod yn cynnwys cynigion ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Deallwn y rhesymeg y tu ôl i gyplysu'r cynigion yn y modd hwn gan ei fod yn tynnu cynigion tebyg o ran natur darpariaeth at ei gilydd. Ond wrth wneud hynny y mae wedi cymryd un peth allweddol yn rhy ganiataol sef bod y ddarpariaeth yr un mor sefydledig yn yr ysgolion Cymraeg ag y mae yn yr ysgolion Saesneg.

Gwyddwn nad yw hyn yn wir o'n gwaith gyda deilliant 6 y Fforwm Addysg Gymraeg. Ac felly, byddwn wedi hoffi gweld mesur effaith ar y cynlluniau ysgolion Cymraeg a Saesneg ar wahân gan fod gwahaniaethau yn yr effeithiau rhwng y ddau.

Nid ydym yn gwbl argyhoeddedig eich bod wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a ddylai wedi cael ystyriaeth fanwl yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Nodwn yn benodol safonau 91, 92 a 93 sef y safonau yn ymwneud ag ymgynghori.

91 Llunio Polisi

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno **ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau** (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar -

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

92 Llunio Polisi

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno **ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth** fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

93 Lluio Polisi

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno **ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth** fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

